

DARGANFOD TREF DINBYCH

Bu 11 o ysgolion Dinbych a'r ardal yn rhan o'r prosiect celf hwn, a gynlluniwyd i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg disgyblion drwy'r celfyddydau a datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddiwylliant a hanes lleol. Ariannwyd y prosiect gan GwE a'i arwain gan Ffion Hughes o Ysgol y Parc ar ran eu clwstwr ysgolion, ac mewn cydweithrediad â Chelfyddydau Cymunedol Hamdden Sir Ddinbych. Rhannwyd y patrymau iaith Gymraeg a ddatblygwyd yn ystod y sesiynau hyn â'r ysgolion er mwyn gwella safonau iaith Gymraeg aelodau staff a disgyblion y clwstwr.



Roedd y disgyblion yn gweithio gyda'r artistiaid proffesiynol Eleri Jones a Catrin Williams dros gyfnod o dri mis rhwng Ionawr a Mawrth 2022. Roedd Catrin Williams yn edrych ar adeiladau gwych tref hanesyddol Dinbych, gyda disgyblion wedyn yn creu trefluniau hynod o liwgar a ysbrydolwyd gan dref Dinbych. Wrth weithio gydag Eleri Jones roedd y disgyblion yn edrych ar ddelweddau o ffigyrau hanesyddol sydd wedi cyfrannu mewn amryw o wahanol ffyrdd i'r defnydd parhaus o'r Gymraeg. Fe wnaethant edrych ar ffigyrau o gyfnod y Celtiaid i Dafydd a Llywelyn ap Gruffydd ac Owain Glyndŵr, a ffigyrau hanesyddol Sir Ddinbych fel y dramodydd Twm o'r Nant, yr awdur Kate Roberts a'r wreslwr Orig Williams. Fe wnaeth y plant a'r bobl ifanc greu platiau print colograff unigol o bortreadau o bobl Sir Ddinbych, yn ogystal â hunan bortreadau. Gosodwyd y rhain wedyn ar ben delweddau o adeiladau Sir Ddinbych a grëwyd gan y disgyblion a fu'n gweithio gyda Catrin, i greu'r gwaith celf gorffenedig a welwch yma heddiw.





Mae Eleri Jones yn artist sy'n gweithio yng ngogledd Cymru. Mae'n gweithio yn bennaf ym maes print a lluniau a phaentiadau cyfrwng cymysg. Gwelir thema ddatblygol yn ei chelfwaith, atgofion o bobl, sefyllfaoedd a gwrthrychau o'i phlentyndod yn tyfu i fyny ar fferm, o adegau penodol wrth deithio, a'i chartref ar hyn o bryd gyda'i theulu yng Nghapel Garmon.

Mae Catrin Williams hefyd yn gweithio yng ngogledd Cymru. Mae wedi cynnal gweithdai ar gyfer plant ysgol o bob oed ar hyd a lled Cymru, yn ogystal â gweithdai ar gyfer prosiectau penodol yn Swydd Amwythig a Glasgow. Am ragor o wybodaeth ewch i - www.catrinwilliams.co.uk - Instagram - [catrin_williams_artist](https://www.instagram.com/catrin_williams_artist)

Dyma'r ysgolion a fu'n rhan o'r prosiect:

- **Ysgol y Parc, Ysgol Frongoch, Ysgol Pendref, Ysgol St Asaph VP, Ysgol Santes Ffraid, Ysgol Bodfari, Ysgol Cefn Meiriadog, Ysgol Uwchradd Dinbych, Ysgol Esgob Morgan, Ysgol y Faenol ac Ysgol Trefnant.**



